Y Pwyllgor Cyllid
—
Finance Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6364
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6364

Y Gwir Anrh. Michael Gove AS
Ysgrifennydd Gwladol dros Godi'r Gwastad, Tai a Chymunedau
Llywodraeth y DU

14 Mawrth 2022

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol

Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i Drefniadau Ariannu ar ôl yr UE

Hoffai Pwyllgor Cyllid y Senedd eich gwahodd i un o gyfarfodydd y Pwyllgor er mwyn trafod ei ymchwiliad i drefniadau ariannu ar ôl yr UE. Fel rhan o gylch gorchwyl yr ymchwiliad, bydd y Pwyllgor yn trafod:

- Cynnydd o ran sefydlu a darparu cronfeydd cyfnewid ar gyfer cronfeydd strwythurol yr UE, gan gynnwys:
  - Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU;
  - y Gronfa Adnewyddu Cymunedol; a'r
  - Gronfa Codi'r Gwastad.
- Y modd y mae'r cyllid arfaethedig ar gyfer Cymru a'r cyllid a gafwyd yn sgil cyfranogiad parhaus y DU yn rhaglenni'r UE yn cymharu â'r cyllid a gafwyd tra'r oedd y DU yn aelod o'r UE.
- Y mecanweithiau a'r strwythurau sy'n cael eu sefydlu i weinyddu'r cronfeydd hynny yng Nghymru, rolau'r rheini sy'n gysylltiedig – yn enwedig Llywodraethau Cymru a'r DU – a'r effaith ddilynol ar drefniadau atebolrwydd.
- Swm y cyllid etifeddol y mae disgwyl i Gymru ei gael ar ôl i'r DU adael yr UE ac sy'n gysylltiedig â rhaglenni cronfeydd strwythurol yr UE.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig erbyn 28 Ebrill, yn rhoi sylw i gylch gorchwyl yr ymchwiliad. Hefyd, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael eich barn ar y canlynol:

Sylwadau diweddar gan Lywodraeth Cymru y "bydd cyllideb Cymru bron i £1 biliwn ar ei cholled erbyn 2024 oherwydd methiant Llywodraeth y DU i gadw ei haddewid na fyddai Cymru'n colli'r "un geiniog" am i'r DU adael yr UE".

Asesiad Llywodraeth Cymru y byddai Cymru'n cael o leiaf £375 miliwn y flwyddyn, pe bai Cymru a'r DU wedi aros yn yr UE. Eich barn ar y ffigur hwn a'ch asesiad o werth y cyllid y mae Cymru wedi/i fod i'w gael.

Rhagor o wybodaeth am sut mae'r ymrwymiad yng Nghyllideb yr Hydref a'r Adolygiad o Wariant 2021 y bydd cyfanswm y cyllid drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU o leiaf yn cyfateb i faint Cronfeydd yr UE ym mhob gwlad ac yng Nghernyw, bob blwyddyn, yn cael ei gyflawni.

Asesiad Llywodraeth y DU o werth cyllid gwaddol yr UE ym mhob blwyddyn ers ymadawiad y DU â'r UE (31 Ionawr 2020).

> Y fethodoleg a fydd yn sail i ddyraniadau Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, gan gynnwys y broses ar gyfer dyraniadau i raglenni fel 'Lluosi'. Sut mae Llywodraeth y DU yn rhagweld y bydd yn darparu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, a rôl partneriaid.

Gall y Pwyllgor gynnig sawl dyddiad ym mis Mai a mis Mehefin, a byddai clerc y Pwyllgor yn hapus i gysylltu â'ch swyddogion er mwyn trefnu amser cyfleus.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
Welsh Parliament